


# Chloe Lines

**Fy enw i yw Chloe Lines, rwy'n 21 oed ac yn byw yng Nglynebwy. Am y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi cael y fraint o fod yn Faer Ieuenctid Blaenau Gwent. Rwyf wedi bod yn rhan o Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent ers 4 blynedd. Ers bod yn rhan o'r Fforwm Ieuenctid rwyf wedi magu hyder ac wedi cael llawer o gyfleoedd i gynrychioli nid yn unig fy hun ond holl blant a phobl ifanc Blaenau Gwent.**

---

Mae fy mlaenoriaeth fel Maer Ieuenctid Blaenau Gwent yn agos iawn at fy nghalon - roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth i godi ymwybyddiaeth o effeithiau bwlio ac annog pobl ifanc i siarad. Rwy'n teimlo bod hwn yn bwnc pwysig gan fy mod wedi cael fy mwlio ac rwy'n deall yr effeithiau y mae'n ei gael nid yn unig yn yr ysgol ond y tu hwnt.

Rwy'n falch o ddweud ein bod wedi datblygu'r ymgyrch a fydd, gobeithio, yn annog plant a phobl ifanc eraill i siarad yn ogystal ag adnabod rhai o'r arwyddion. Hoffwn ddiolch i aelodau eraill y fforwm ieuenctid a oedd yn allweddol i'm cefnogi gyda'r ymgyrch hon na fyddai byth wedi gallu digwydd heboch chi.

**Byddaf yn parhau â'm taith gyda'r Fforwm Ieuenctid cyhyd ag y gallaf, yn ogystal â chefnogi'r Maer Ieuenctid a'r Dirprwy Faer newydd.**

**Mynd i'r afael â bwlio ac annog plant a phobl ifanc i siarad: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/fforwm-ieuenctid/mynd-i-r-afael-a-bwlio-ac-annog-plant-a-phobl-ifanc-i-siarad/**

Dros y blynyddoedd rwyf wedi bod yn ymwneud â'r Fforwm Ieuenctid, rwyf wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau, wedi mynychu digwyddiadau fel y digwyddiad Hawl i Holi Comisiynwyr yr Heddlu ac wedi cymryd rhan mewn llawer o ymgyrchoedd megis Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod y Rhuban Gwyn yn ogystal â llawer mwy.

Eleni roeddwn yn falch o dderbyn gwobr a gyflwynwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) am ein hymrwymiad i gefnogi plant a phobl ifanc ar ran y Fforwm Ieuenctid, a oedd yn brofiad hyfryd i mi, y Dirprwy Faer Ieuenctid Mara Moruz a Rhianna Lewis Aelod Senedd Ieuenctid y DU.

